# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Care in Hands**

**Laurel House**
**Wooden**
**Saundersfoot**
**SA69 9DY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Care in Hands

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Care in Hands Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Gorffennaf 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r tîm o staff sydd wedi'i hyfforddi'n dda ac sy'n dangos dealltwriaeth yn galluogi'r bobl i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Ar y cyfan, mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan dîm o weithwyr gofal cyfarwydd a chyson, y mae ganddynt gydberthnasau da â nhw. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn llawn mewn penderfyniadau am eu gofal.

Caiff y gwasanaeth ei arwain yn effeithiol gan y rheolwr a'r tîm gweithrediadau. Mae'r bobl a'r staff yn canmol yr arweinwyr a'r arweiniad sydd ar gael iddynt. Nid oedd gan y gwasanaeth Unigolyn Cyfrifol ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth drefniadau ar waith o hyd i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys wrth ddatblygu ac adolygu eu cynlluniau personol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae'r bobl yn cadw mor iach â phosibl am fod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau.  Mae'r gweithwyr gofal gwybodus wedi meithrin cydberthnasau parchus a deallgar â'r bobl, dywedodd un ohonynt *“I enjoy connecting with people. Helping them with their lives so they can do the things they want to do. I enjoy making them feel like a person, like they are cared about, listened to and respected”.* Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, sy'n golygu y gall y bobl gyfathrebu yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed gan fod y prosesau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir. Caiff hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus eu hannog ac mae pob aelod o'r staff yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi unrhyw faterion sydd ganddynt. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ac maent yn hyderus y byddant yn cael ymateb priodol.

Nid oedd gan y gwasanaeth Unigolyn Cyfrifol ar adeg yr arolygiad, ond mae trefniadau effeithiol ar waith i gyflawni swyddogaethau'r swydd wag hon. Mae gan y bobl lais am eu bod yn cwblhau arolygon adborth rheolaidd a'u bod yn cael eu cynnwys mewn archwiliadau ansawdd mewnol. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis diweddaraf yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd er mwyn gwella'r gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei gael i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Dywedodd unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *“The carers are very good, no problems at all”.* Mae cynrychiolwyr y bobl hefyd yn gadarnhaol am effeithiolrwydd y gofal a'r cymorth a gaiff eu cynnig, a dywedodd aelod o deulu, *“He seems very happy with the carers and he’s never said anything bad about them”.* Caiff gweithwyr gofal eu tywys gan gynlluniau electronig hynod fanwl a chyfredol. Mae'r tîm o staff brwdfrydig a phrofiadol yn adnabod y bobl yn dda ac yn deall eu dewisiadau unigol. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *“I enjoy helping people in difficult situations throughout their lives, providing support to them in different circumstances”* ac *“I enjoy making a difference and helping people live a better life”.*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr gofal eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau personol. Mae uwch-weithwyr gofal yn adolygu'r cynlluniau gyda'r bobl yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i arwain staff ynghylch y ffordd orau o alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gaiff eu cynnig yn ogystal â gwybodaeth allweddol neu adborth gan bobl. Mae'r darparwr yn defnyddio system electronig sy'n golygu bod y wybodaeth yn gywir ac ar gael yn hawdd.

Mae niferoedd digonol o staff medrus ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Mae digon o amser teithio yn cael ei neilltuo i weithwyr gofal rhwng ymweliadau. Mae'r gwasanaeth yn ceisio dyrannu'r un staff i'r bobl yn gyson ac ar y cyfan, caiff unrhyw newidiadau i amseroedd gofal a gynlluniwyd y bobl eu trafod â nhw.

Mae gan y darparwr Ddatganiad o Ddiben a Chanllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth cyfredol, sydd ar gael i'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn gweithredu heb Unigolyn Cyfrifol ac nid yw ymweliadau Rheoliad 73 yn cael eu cynnal bob tri mis oherwydd hyn. Mae trefniadau dros dro effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r rheolwr wedi cwblhau Adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis, gan ddefnyddio canlyniadau archwiliadau ac adborth gan bobl, cynrychiolwyr a staff i adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda gan y rheolwr, sy'n cael ei gefnogi gan dîm gweithredu, sy'n cynnwys rheolwyr ardal, goruchwylwyr maes a swyddogion ansawdd. Mae gan y bobl a'u cynrychiolwyr hyder yn y tîm rheoli a gallant drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â nhw. Dywedodd un unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth wrthym, *I don't need to talk to them much, there's no need because the care is good".* Dywedodd y gweithwyr gofal fod aelodau'r tîm arwain yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. dywedodd un ohonynt *"The operations team as a whole are fantastic and incredibly helpful".* Mae systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod y ddogfennaeth sy'n arwain staff yn gywir ac yn gyfredol.

Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiwn oruchwylio un i un â'u rheolwyr llinell o leiaf bob tri mis. Mae arfarniadau blynyddol yn rhoi'r cyfle i'r staff drafod eu perfformiad a gosod targedau ar gyfer y 12 mis nesaf. Cynhelir gwiriadau ansawdd dirybudd yng nghartrefi'r bobl er mwyn sicrhau y caiff safonau ansawdd eu cyrraedd yn gyson. Wrth drafod y cymorth sydd ar gael dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"The manager is very supportive, always open to suggestions, and provides guidance whenever needed".*

Cynhelir y gwiriadau cyn cyflogi gofynnol cyn i staff newydd ddechrau gweithio. Mae'r gweithwyr gofal newydd yn ymgymryd â chyfnod sefydlu cynhwysfawr ac yn cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae datblygiad parhaus yn gyfuniad effeithiol o brosesau e-ddysgu, hyfforddiant wyneb yn wyneb a gwiriadau cymhwysedd gorfodol. Mae dull cadarnhaol y swyddog hyfforddiant ymroddedig wrth ddatblygu'r staff yn golygu bod y staff yn meddu ar sgiliiau addas a'u bod yn cael eu cefnogi i ddiwallu anghenion y bobl yn llwyddiannus. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant sy'n benodol i'r person gan ddweud bod yr hyfforddiant yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol.

Dangosodd trafodaethau ag amrywiaeth o'r staff gofal eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o brosesau diogelu. Mae'r gweithwyr gofal yn cyfathrebu'n dda gyda'u rheolwyr ac yn hyderus i roi gwybod am bryderon os bydd angen.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 24/10/2024